



Barry Davies LL.B (Hons)
Solicitor/Cyfreithiwr
 Head of Legal and Democratic Services
 Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a
 Democraidaidd

I: Cyngorwyr: Nancy Matthews, N. Phillips, Michael Priestly,
 Eryl Williams, Julian Thompson-Hill, Arwel Pierce,
 W. G. Roberts, Thomas H. Jones, Hefin Thomas and
 Meirion Hughes

CS/NG

7 Ionawr, 2010

Nicola Gittins

01352 702345

nicola.gittins@flintshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Cynhelir **CYFARFOD CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD
 CYMRU yn YSTAFELL DELYN, NEUADD y SIR, Yr WYDDGRUG, CH7 6NF, ar
 DYDD GWENER, 14 IONAWR 2011 am 10.30y.b.** i drafod y materion canlynol.

Yr eiddoch yn gywir

Rheolwr Democratiaeth a Rheolaeth

AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU**
2. **DATGANIAD O DDIDORDEB**
3. **CYMERADWYO COFNODION BLAENOROL**
4. **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL**

County Hall, Mold. CH7 6NA
 Tel. 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.flintshire.gov.uk
 Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR
 Ffôn 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.siryfflint.gov.uk

The Council welcomes correspondence in Welsh or English
 Mae'r Cyngor yn croesawau gohebiaeth yn y Cymraeg neu'r Saesneg

5. **ADRODDIAD CYNNYDD (ADRODDIAD SO)**
6. **COFRESTR RISG – DIWEDDARIAD STATWS RISG (ADRODDIAD SP)**
7. **DIWEDDARIAD CYFATHREBU (ADRODDIAD SO)**
8. **PROTOCOL CYFRINACHEDD A RHYDDID GWYBODAETH (ADRODDIAD SP)**
9. **NEWIDIADAU I'R CYTUNDEB RHYNG-AWDURDOD (ADRODDIAD SP)**
10. **ADRODDIAD MESUR GWASTRAFF (CYMRU) 2010**
11. **UNRHYW FATER ARALL**

CYD BWYLLGOR PROSIECT TRIN GWASTRAFF GWEDDILLIOL **GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod y Cyd Bwyllgor a gynhaliwyd yn Siambr Arfon , Swyddfa Rhanbarth Arfon,
Penrallt, Caernarfon ar ddydd Gwener, 29 Hydref 2010 am 10.30am

Presennol: – Cyngorydd Eryl Williams (Cadeirydd) – Cyngor Sir Ddinbych
Cyngorydd Mike Priestley – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngorydd Nancy Mathews – Cyngor Sir y Fflint
Cyngorydd Neville Phillips – Cyngor Sir y Fflint
Cyngorydd Arwel Pierce – Cyngor Gwynedd

Hefyd yn bresennol

Cyngor Sir y Fflint

Mr Colin Everett, Mr Carl Longland, Ms Louise Pedreschi

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mr Andrew Kirkham

Cyngor Gwynedd

Mr William E. Jones a Mr Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

Partneriaeth Triniaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Mr Stephen Penny a Mr Steffan Owen

Grant Thornton

Mr Saeefer Rehman

Entec UK Ltd

Mr Jonathan Bebb

Ymddiheuriadau: Cyngorydd Meirion Hughes (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy),
Cyngorydd Hefin Thomas (Cyngor Sir Ynys Môn), Mr Iwan P. Jones (Cyngor Sir Ddinbych)
a Mrs Kerry Feather (Cyngor Sir y Fflint)

1. CYMERADWYO'R COFNODION BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 3 Medi 2010.

PENDERFYNWYD bod y cofnodion yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod
cywir.

2. MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL

Cofnod 5 – RIR – DIWEDDARIAD STATWS RISG

Nododd y Cyfarwyddwr Prosiect ei fod yn disgwyl cadarnhad gan LICC yng nghyswllt DEFRA
yn gwrthwynebu peidio â chyfrif lludw gwaelod fel cyfrannwr at ailgylchu. Cyflwynir adroddiad
i'r cyfarfod nesaf o'r cyd bwyllgor yn Ionawr 2011.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

3. ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynodd y Rheolwr Prosiect adroddiad cynnydd a chyfeiriodd yn arbennig at y proffil cyllidebol diwygiedig. Nododd fod y cyfanswm costau rhagamcanedig wedi lleihau o'r rheiny yr adroddwyd arnynt ddiwethaf o £0.4m i £2.83m a hefyd roedd cyfran bob partner wedi lleihau o £0.645m i £0.566m dros y prosiect cyfan. Hefyd roedd taliadau opsiwn safle wedi lleihau o £0.4m ynghyd â chyfraniad ychwanegol LICC o £0.15m. Mae'r lleihad yng nghostau ymgynghorwyr a'r gronfa wrth gefn wedi lliniaru'r cynnydd mewn costau rheoli prosiect.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

4. RIR – DIWEDDARIAD STATWS RISG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Prosiect Adroddiad Cofrestr Risg a oedd yn amlygu rhai o'r diwygiadau i'r Gofrestr Risg sydd wedi eu gwneud i adlewyrchu'r ddealltwriaeth bresennol o risgiau a mesurau lliniaru sydd yn eu lle.

Nodwyd nad oes unrhyw risgiau newydd a'r unig newid i'r Gofrestr Risg yn ystod y cyfnod hwn oedd risg W2 yng nghyswllt model llif gwastraff a chywirdeb rhagdybiaethau wedi eu haddasu i adlewyrchu y pryderon a godwyd yng nghyfarfod Medi 2010 o'r Bwrdd Prosiect. Bydd y Gofrestr Risg yn parhau i gael ei hadolygu gan y Cyfarwyddwr Prosiect ac adroddir arni i'r Bwrdd Prosiect mewn cyfarfodydd i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD i nodi y Gofrestr Risg wedi'i diweddarau ar gyfer y prosiect.

5. ADRODDIAD STRATEGAETH GYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

Diweddarodd y Rheolwr Prosiect yr aelodau ar ddatblygiad y Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu trwy amlinellu'r prif feysydd ffocws ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu.

Nodwyd bod y prosiect eisoes wedi dod yn fater diddordeb i randdeiliaid allanol a mewnol yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd ers i'r Achos Busnes Amlinellol gael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi. Mae'n hanfodol i ddeiliant prosiect llwyddiannus fod Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu yn cael ei datblygu a'i chyflenwi i gefnogi'r prosiect. Mae nifer o risgiau allweddol y prosiect yn ymwneud â dealltwriaeth o'r prosiect gan brif randdeiliaid a rheolaeth cyfathrebu ac ymgysylltu ac felly mae angen strategaeth gadarn i reoli'r risgiau hynny.

Yn ystod Ionawr 2010, cynhaliwyd arolwg barn o oddeutu 1,000 o breswylwyr y pum awdurdod partner. Derbyniwyd canlyniadau'r arolwg hwn yn ystod Mawrth 2010 ac adroddwyd arno i'r Grŵp Swyddogion Cyfathrebu yn ystod Ebrill 2010. Roedd yr arolwg yn gofyn cyfres o gwestiynau ynghylch gwasanaethau gwastraff a rheoli gwastraff yn gyffredinol, cyn gofyn yn olaf rai cwestiynau ynglŷn ag agweddau pobl tuag at gyfleusterau trin gwastraff. Rhoddodd y swyddog grynoded i aelodau o brif ganfyddiadau'r arolwg. Y bwriad yw defnyddio'r wybodaeth hon i ychwanegu at honno a gesglir o'r sesiwn ymgysylltu rhanddeiliaid, a bydd yn hysbysu datblygiad y fframwaith gwerthuso caffael.

Mae'r strategaeth yn ddogfen drosfwaol sy'n ffurfio dull cyffredinol y prosiect o ymdrin â chyfathrebu ac ymgysylltu ac mae'r cynllun gweithredu yn rhoi'r dull hwn ar waith mewn gweithgareddau a gweithrediadau penodol dros gyfnod y prosiect. Mae'r ddogfen yn cynnwys yr adrannau canlynol –

- a) Amcanion i'r strategaeth.
- b) Dadansoddiad SWOT

- c) Egwyddorion cyfathrebu
- d) Negeseuon allweddol
- e) Strategaeth Ymgysylltu
- f) Strategaeth Gyswilt â'r Cyfryngau

Mae'r Cynllun Cyfathrebu yn amlinellu'n fanylach y gweithgareddau cyfathrebu sydd i'w cynnal a phryd y dylid gwneud hynny yn ystod y broses gaffael.

Pwysleisiodd aelod bwysigrwydd dwyieithrwydd yn nhrefodaethau'r cyd bwyllgor.

PENDERFYNWYD

- a) I nodi canfyddiadau'r Arolwg barn.**
- b) I nodi y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu drafft a'r Cynllun Gweithredu Cyfathrebu, gan ganiatáu ar gyfer diwygiadau a'u cymeradwyo'n derfynol gan y Grŵp Swyddogion Cyfathrebu.**
- c) Cymeradwyo y prif feysydd gweithgaredd cyfathrebu ac ymgysylltu a nodi y bydd y dogfennau hyn yn dod yn rhai "byw" a all addasu dros oes y prosiect.**
- d) Cymeradwyo cyfathrebu ac ymgysylltu fel eitem reolaidd ar agenda cyfarfodydd y Cyd bwyllgor.**

6. FFRAMWAITH GWERTHUSO CAFFAEL NWRWTP

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Prosiect adroddiad ar y fframwaith gwerthuso caffael. Dywedodd bod raid i'r caffael, dan Y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006, ddefnyddio'r weithdrefn deialog gystadleuol a fydd yn arwain at ymgeisydd a ffefrir. Mae hyn yn golygu symud fesul cam ac yn ystod y broses rhaid cynnal tegwch a thryloywder i'r holl ymgeiswyr. Er mwyn cyrraedd ymgeisydd a ffefrir, rhaid i'r fframwaith gwerthuso y bwriedir ei ddefnyddio i werthuso bidiau gael ei ddatgelu i ymgeiswyr posib cyn agor proses y ddeialog gystadleuol. Bydd y broses hon yn cychwyn ar ôl cytuno ar yr ymgeiswyr a gymhwysodd eisoes a rhyddhau Gwahoddiad i Gymryd Rhan mewn Deialog a dogfennau cysylltiedig i'r ymgeiswyr.

Ar adeg benodol yr ateb amlinellol, prif amcan y gwerthusiad yw rhoddi prawf ar y gallu i weithredu'n dechnegol ar y prosiect. Yn ddiweddarach yn y broses pan fo'r hyder yn y gallu i gyflenwi'r agweddau technegol ar yr ateb wedi tyfu, bydd y fframwaith gwerthuso yn rhoddi mwy o bwyslais ar agweddau cyllidol a chyfreithiol. Mae'r bartneriaeth wedi cael cyngor gan ei hymgyngorwyr cyfreithiol sy'n dweud bod modd pennu ystod o bwysoliadau a fydd yn berthnasol yng nghyfnodau olaf y broses gaffael. Rhydd hyn y cyfle i'r bartneriaeth ystwytho'r pwysoliadau tu mewn i'r ystod hwn os bydd angen. Mae hyn wedi'i ymgorffori yn y fframwaith gwerthuso. Trwy gydol y gwaith o ddatblygu'r meini prawf, mae'r tîm prosiect wedi bod yn ystyried posibiliadau eraill o ran y pwysoliad i'w roddi ynghlwm wrth y meini prawf. Credir bod y meini prawf a argymhellir yn cynnig y ffordd orau i gyflawni amcanion y bartneriaeth a chydymffurfio gyda'r ymarfer gorau.

Gan gynrychiolydd Entec cafwyd crynodeb manwl o'r fframwaith gwerthuso a hefyd wybodaeth am amryfal lefelau'r meini prawf.

Yn ogystal hysbysodd y Cyfarwyddwr Prosiect yr aelodau bod gwaith diwygio wedi'i wneud ar rai o'r sgoriau gwerthuso cychwynol.

Mynegodd un aelod bryderon ynghylch cludiant, yn enwedig os ydy'r ateb yn un all-sirol i Ogledd Cymru. Mewn ymateb dywedodd y swyddogion wrth yr aelodau y buasai modd gwneud rhagor o waith adolygu ar y mater hwn a sicrhau y pwysau mwyaf bosib ar gludiant.

PENDERFYNWYD

- a) Derbyn y Fframwaith Gwerthuso.**

b) Rhoddi rhagor o sylw i uwchraddio cludiant.

7. CAU'R WASG A'R CYHOEDD ALLAN

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod am y drafodaeth ar y tair eitem a ganlyn oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth eithriedig ei datgelu fel y diffinnir hynny ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff hwn yn berthnasol oherwydd gallai datgelu'r wybodaeth sensitif a masnachol freiniol sydd yn yr adroddiadau arwain at dorri cyfrinachedd a thanseilio'r broses gaffael.

8. HOLIADUR CYN-GYMHWYSO GWERTHUSO A DATBLYGU'R RHESTR DDETHOL

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Prosiect yr aelodau mai pennaf amcan yr Holiadur Cyn-Gymhwysu (PQQ) yw gostwng nifer y cyflenwyr a wahoddir i dendro gyda golwg ar gael nifer y bydd modd ei rheoli. Cytunodd y Cyd bwyllgor bod y bartneriaeth yn dethol wyth o ymgeiswyr ar gyfer cam nesaf y broses gaffael, ond gan ddiogelu'r hawl i ddethol mwy neu lai na'r nifer hon.

Cyflwynodd y swyddog grynodedb o'r pwysoliadau dan y fframwaith gwerthuso PQQ. Yn ogystal â'r pwysoliadau, defnyddir trothwy sylfaenol llwyddo/methu yng nghyswllt y meini prawf asesu B-Economig a gwybodaeth gyllidol. Roedd disgwyl i ymgeiswyr sgorio o leiaf 50% o'r marciau oedd ar gael am yr elfen hon a'r bartneriaeth yn diogelu'r hawl i wrthod unrhyw ymgeisydd a fethai gyrraedd y trothwy sgôr llwyddo sylfaenol. Roedd yr ymatebion i gwestiynau'n cael eu gwerthuso ar ôl gwneud nifer o wiriadau cydymffurfiad a chyflawnder cychwynol. Cyflwynodd wybodaeth am y sefydliadau oedd wedi cyflwyno ymatebion PQQ, am ganlyniadau'r broses gwerthuso PQQ ac am yr wyth ymgeisydd yr argymhellwyd eu gwadd i gam nesaf y broses gaffael.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhestr ddethol o wyth ymgeisydd fel yr argymhellwyd hynny yn yr adroddiad gerbron y Cyd bwyllgor.

9. GWAHODDIAD I GYMRYD RHAN MEWN DEIALOG

Dywedodd y Cyfarwyddwr Prosiect bod proses gaffael NWRWTP yn defnyddio'r weithdrefn deialog gystadleuol (CD). I gychwyn y weithdrefn CD, rhoddir Gwahoddiad i Gymryd Rhan mewn Deialog i'r ymgeiswyr. Rhaid cael cymeradwyaeth y Cyd bwyllgor i'r dogfennau cyn eu rhoddi i'r ymgeiswyr ar gychwyn cam nesaf y broses gaffael. Crynhodd faterion allweddol y dogfennau fel a ganlyn –

- a) Sgôp y Gwasanaeth
- b) Tunelli o Wastraff a'i Gyfansoddiad
- c) Cyfnod y Contract
- d) Oes weddilliol yr asedau
- e) Gwyo Gwastraff Contract i Safleoedd Tirlenwi

PENDERFYNWYD

a) Cymeradwyo Gwahoddiad NWRWTP i Gymryd Rhan mewn Deialog a materion cysylltiedig.

b) Cymeradwyo symud i gam nesaf y broses gaffael gyda rhannu Gwahoddiad i Gymryd Rhan mewn Deialog a dogfennau cysylltiedig.

c) Rhoi'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Prosiect mewn ymgynghoriad gyda'r swyddogion technegol, cyllidol a chyfreithiol sy'n arwain, gyflwyno mân newidiadau i'r Gwahoddiad i Gymryd Rhan mewn Deialog a dogfennau cysylltiedig cyn eu rhyddhau i ymgeiswyr.

10. DIWEDDARIAD YNG NGHYSWLLT SICRHAU TIR

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Prosiect adroddiad ar y datblygiadau yng nghyswllt sicrhau opsiwn ar gyfer ail safle i'r cyfleusterau trin gwastraff gweddilliol. Yng nghyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn penderfynwyd cefnogi'r dull o sicrhau opsiwn posib ar dir a nodwyd bwriad y Bwrdd Prosiect i gomisiynu arolygol geotechnegol o fewn cyfnod amser na fydd yn tanseilio amserlen y prosiect. Cynhaliwyd trafodaethau gyda pherchennog y tir a rhagwelir y bydd fersiwn ddrafft o gytundeb opsiwn ar gael gyda hyn i'r bartneriaeth ei adolygu. Nid yw'r cytundeb opsiwn yn rhwymo'r bartneriaeth i brynu'r safle a buasai'r Cyd bwyllgor yn cadw'r hawl i benderfynu a ydyw am gymryd yr opsiwn ai peidio.

PENDERFYNWYD

a) Rhoi'r awdurdod i'r Bwrdd Prosiect ystyried a chytuno, fel sydd raid, bod Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud cytundeb opsiwn ran y bartneriaeth.

b) Pe gofynnid i Gyngor Sir Ynys Môn wneud cytundeb opsiwn ar ran y bartneriaeth, cytuno bod y bartneriaeth yn cwrdd â chostau prynu'r cytundeb opsiwn ac felly y gost o brynu'r tir, a phob cost resymol arall yr eir iddi gan Gyngor Sir Ynys Môn yng nghyswllt prynu tir.

11. UNRHYW FATER ARALL

Dywedodd y Rheolwr Prosiect wrth yr aelodau bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda'r ymgynghorwyr cyfathrebu ynghylch terfynu'r contract.

Cytunwyd hefyd i gael "Datgan Diddordeb Personol" fel eitem ar y rhaglen.

CYD BWYLLGOR PROJECT TRIN GWASTRAFF GWEDDILLIOL **GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod y Cyd Bwyllgor a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy ar Ddydd Gwener, 5 Tachwedd 2010 am 9am (cyfarfod y dilyn i gyfarfod o'r Cyd Bwyllgor yn Siambr Arfon, Swyddfa Rhanbarth Arfon, Penrallt, Caernarfon ar 29 Hydref 2010)

Presennol: – Cyngorydd Eryl Williams (Cadeirydd) – Cyngor Sir Ddinbych
Cyngorydd Mike Priestley – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngorydd Neville Phillips – Cyngor Sir y Fflint
Cyngorydd Arwel Pierce – Cyngor Gwynedd
Cyngorydd Hefin Thomas – Cyngor Sir Ynys Môn

Hefyd yn bresennol
Cyngor Sir y Fflint
Mr Barry Davies

Cyngor Sir Ynys Môn
Mr Meirion Edwards

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru
Mr Steffan Owen

Ymddiheuriadau: Cyngorydd Nancy Mathews (Cyngor Sir y Fflint)

1. CYMERADWYO'R COFNODION BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 3 Medi 2010.

PENDERFYNWYD bod y cofnodion yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

2. MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL

Dim nad oedd wedi ei godi yn barod yng nghyfarfod ar 29 Hydref 2010.

Ymddiheuroedd Cyngorydd Hefin Thomas am nad oedd yn medru mynychu y cyfarfod ar 29 Hydref 2010, ac esboniodd roedd oherwydd amgylchiadau personol.

PENDERFYNWYD i'r Swyddogion Cyfreithiol edrych ar ffordd o ddiwygio y Cytundeb Rhyng Awdurdod i adael fwy o hyblygrwydd i gytuno penderfyniadau yng nghyfarfodydd Cyd Bwyllgor dyfodol.

3. ADRODDIAD CYNNYDD

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

4. RIR – DIWEDDARIAD STATWS RISG

PENDERFYNWYD i nodi y Gofrestr Risg wedi'i diweddarau ar gyfer y prosiect.

5. ADRODDIAD STRATEGAETH GYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

PENDERFYNWYD

- a) I nodi canfyddiadau'r Arolwg barn.
- b) I nodi y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu drafft a'r Cynllun Gweithredu Cyfathrebu, gan ganiatáu ar gyfer diwygiadau a'u cymeradwyo'n derfynol gan y Grŵp Swyddogion Cyfathrebu.
- c) Cymeradwyo y prif feysydd gweithgaredd cyfathrebu ac ymgysylltu a nodi y bydd y dogfennau hyn yn dod yn rhai "byw" a all addasu dros oes y prosiect.
- d) Cymeradwyo cyfathrebu ac ymgysylltu fel eitem reolaidd ar agenda cyfarfodydd y Cyd bwyllgor.

6. FFRAMWAITH GWERTHUSO CAFFAEL PTGGGC

PENDERFYNWYD

- a) Derbyn y Fframwaith Gwerthuso.
- b) Rhoddi rhagor o sylw i uwchraddio cludiant.

7. CAU'R WASG A'R CYHOEDD ALLAN

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod am y drafodaeth ar y tair eitem a ganlyn oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth eithriedig ei datgelu fel y diffinnir hynny ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff hwn yn berthnasol oherwydd gallai datgelu'r wybodaeth sensitif a masnachol freiniol sydd yn yr adroddiadau arwain at dorri cyfrinachedd a thanseilio'r broses gaffael.

8. HOLIADUR CYN-GYMHWYSO GWERTHUSO A DATBLYGU'R RHESTR DDETHOL

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhestr ddethol o wyth ymgeisydd fel yr argymhellwyd hynny yn yr adroddiad gerbron y Cyd bwyllgor.

9. GWAHODDIAD I GYMRYD RHAN MEWN DEIALOG

PENDERFYNWYD

- a) Cymeradwyo Gwahoddiad NWRWTP i Gymryd Rhan mewn Deialog a materion cysylltiedig.
- b) Cymeradwyo symud i gam nesaf y broses gaffael gyda rhannu Gwahoddiad i Gymryd Rhan mewn Deialog a dogfennau cysylltiedig.
- c) Rhoi'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Prosiect mewn ymgynghoriad gyda'r swyddogion technegol, cyllidol a chyfreithiol sy'n arwain, gyflwyno mân newidiadau i'r Gwahoddiad i Gymryd Rhan mewn Deialog a dogfennau cysylltiedig cyn eu rhyddhau i ymgeiswyr.

10. DIWEDDARIAD YNG NGHYSWLLT SICRHAU TIR

PENDERFYNWYD

- a) Rhoi'r awdurdod i'r Bwrdd Prosiect ystyried a chytuno, fel sydd raid, bod Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud cytundeb opsiwn ran y bartneriaeth.
- b) Pe gofynnid i Gyngor Sir Ynys Môn wneud cytundeb opsiwn ar ran y bartneriaeth, cytuno bod y bartneriaeth yn cwrdd â chostau prynu'r cytundeb opsiwn ac felly y gost o brynu'r tir, a phob cost resymol arall yr eir iddi gan Gyngor Sir Ynys Môn yng nghyswllt prynu y tir.

11. UNRHYW FATER ARALL

Fe roddwyd Steffan Owen ei ddiolchiadau i'r Aelodau am fynychu'r cyfarfod ar fyr rybudd.

**RHIF AR YR AGENDA: 5****PROSIECT TRIN GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU****CYD-BWYLLGOR TRIN GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU****Date : 14 Ionawr 2011****Cyfnod: 22 Hydref 2010 i 7 Ionawr 2011****CRYNODEB O'R PROSIECT**

Caffael ateb rheoli gwastraff cynaliadwy ar gyfer y 5 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn) a fydd yn cynorthwyo gyda gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr o dirlenwi a lleihau'r tunelledd gwastraff gweddilliol a anfonir i dirlenwi gan a sicrhau bod yr awdurdodau yn osgoi cosbau methu cyflawni'r Cynllun Lwfans Tirlenwi ac yn cwrdd â thargedau'r Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol.

STATWS Y PROSIECT

Statws y Prosiect yn gyffredinol	
Gwyrdd	Yn dilyn cytundeb y Cyd Bwyllgor, fe gyhoeddwyd y gwahoddiad i gymryd rhan mewn deialog i'r ymgeiswyr ar 5 Tachwedd 2010 fel yr amserlen. Cynhelir cyfarfodydd deilog cyntaf cadarnhaol gyda'r ymgwiswyr ym mis Tachwedd, ac amlinellodd y partneriaeth ei flaenoriaethau allweddol yn glir. Mae'r partneriaeth yn derbyn cwestiynau eglurhad gan ymgeiswyr ar hyn o bryd. Mae'r gwaith paratoi asesu ISOS wedi dechrau ac hefyd paratoi y ddogefnaeth ISDS.

Statws y gyllideb	
Gwyrdd	Gwir wariant i'r flwyddyn ariannol yma hyd at 31/12/10 yw £660,422. Proffil gwariant am yr un cyfnod yw £873,805. (Tan broffil o £213,383). Mae hyn oherwydd costau ymgynghorwyr sydd heb fynd trwy'r sustem. Dylid nodi bod disgwylir costau ymgynghorwyr sylweddol yn ystod Rhagfyr 2010 a



Ionawr 2011 (mae'r ymgynghorwyr wedi bod yn gwneud gwaith sylweddol yn ystod Hydref a Tachwedd 2010).

Statws	Ystyr
Gwyrdd	Nid oes unrhyw broblemau, mae popeth yn symyd ymlaen fel a gynllunwyd.
Ambr	Mae rhai mân broblemau. Mae angen gweithredu mewn rhai meysydd ond mae rhannau eraill yn datblygu'n foddhaol.
Coch	Mae yna broblemau sylweddol ac mae angen gweithred brys a phendant

DIWEDDARIAD PROSIECT– Gweithgareddau i'w gwblhau 22 Hydref 2010 i 7 Ionawr (gyda rhai weithgareddau tu hwnt i'r dyddiadau yno).

ID	Gweithgaredd	Statws "RAG"	Sylwadau	Rhagolwg	Gwir ddyddiad
31	Commisiynu gwaith i liniaru risg cynllunio o ganlyniad Dewis Amgylcheddol Ymarferol Gorau (DAYG) fod yn weithredol yng Nghymru.	Gwyrdd	Asesiad Cynladwyedd draft wedi ei gwblhau.	Hydref 2010	Wedi cwblhau
32	Opswn ar ail safle wedi ei datblygu sydd yn addas i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn.	Gwyrdd	Diweddariad ar lafar yn y cyfarfod	Diwedd Ionawr / dechrau Chwefror 2011	
33	Prisiad tir ac asedau gan Prisiwr Ardal wedi'i gwblhau Valuation of land and assets complete by District Valuer	Ambr	Prisiwr Ardal weid ymweld a bob safle – yn disgwyl adroddiad	Ionawr 2011	
34	Arolygon cyflwr o safleoedd presennol wedi'i gwblhau	Gwyrdd	Gwaith wedi ei cwblhau	Diwedd Medi 2010	Wedi cwblhau
35	Datblygu amserlen a methodoleg arfaethedig l ddelio gyda TUPE	Ambr	Pinsent Masons wedi dechrau gwaith gyda Ynys Môn cyn symyd ymlaen i'r awdurdodau partner eraill.	Ionawr / Chwefror 2011	
42	Cynnal trafodaethau gyda LICC parthed	Ambr	SP i edrych i mewn i potensial am arian	Disgwylir Mawrth	



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

	potensial am grant tuag at gwariant rheilffordd.		ychwanegol gan LICC	2011	
45	Diweddaru'r Strategaeth Cyfaethrebu a Chyhoeddi	Ambr	Cyd Bwyllgor wedi cytuno strategaeth ddrafft.	Hydef 2010	Wedi ei gwblhau
46	Datblygu gweithredau manwl i'w gynnwys yn y Cynllun Prosiect yn dilyn gweithred 45	Ambr	SO wrthi'n datblygu'r Cynllun Prosiect.	Ionawr 2011	
47	Adnabod safle ar gyfer safle trosglwyddo gwastraff ar gyfer Conwy a rhan o Sir Ddinbych.	Ambr	Safle potensial wedi'i adnabod. Gwaith pellach i'w gwblhau os yw ymgeiswyr yn dangos diddordeb yn y safle.	Hydref 2010	Wedi ei gwblhau
48	Trafod gyda LICC a Prosiect Gwyrdd par: asesu cynnigion masnachol	Gwyrdd	Cyfarfod wedi ei gynnal 7 Rhagfyr 10. Cyfarfod dilynol yw gynnal ar 26 Ionawr 2011	26 January 2011	
49	Trafod statws targed lleihau gwastraff y Cynllun Sector Trefol gyda LICC	Gwyrdd	Diweddariad ar lafar yn y cyfarfod	Rhagfyr 2010	Wedi ei gwblhau
50	Trafod gyda gweithredwr pen rheilffordd	Gwyrdd	SP wedi cyfarfod ar 16 Rhagfyr 2010. Diweddariad ar lafar yn y cyfarfod	16 Rhagfyr 2010	Wedi ei gwblhau
51	Cwblhau process asesu ISOS	Gwyrdd	Trafodaethau wedi ei gynnal gyda ymgynghorwyr a sywddogion	Ionawr 2011	Wedi ei gwblhau
52	Dechrau datblygu ddogefnnaeth ISDS	Gwyrdd	Trafodaethau cynnar wedi ei gynnal gda ymgynghorwyr i Early discussions held with advisors to allocate workload.	Mawrth 2011	
53	Ail sesiynau deialog ISOS	Gwyrdd	Sesiynau wedi ei drefnu ar gyfer 17 - 20 Ionawr 2011	Canol Ionawr 2011	
54	Confidentiality Protocol to be agreed by legal officers and Freedom Of Information Officers	Ambr	See item 7 on this agenda.	Ionawr 2011	



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

RISGIAU ALLWEDDOL – Gweler eitem 5 ar yr agenda



NWRWTP

North Wales Residual Waste Treatment Project

AGENDA ITEM NO: 6

REPORT TO: **NWRWTP JOINT COMMITTEE**

DATE: **14 JANUARY 2010**

REPORT BY: **PROJECT DIRECTOR**

SUBJECT: **RISK REGISTER REPORT**

1. PURPOSE OF REPORT

- 1.1. The members of the NWRWTP Joint Committee have requested that they are provided with an update of the risk register at each meeting of the Joint Committee.
- 1.2. This report will highlight some of the amendments to the risk register that have been made to reflect the current understanding of risks and mitigation measures that are in place.

2. BACKGROUND

- 2.1. The Risk Register will require continual update throughout the project.

3. CONSIDERATIONS

- 3.1. There are two new risks/ issues identified this reporting period.
- 3.2. The Top 8 risks (after controls have been put in place) are shown in appendix 1.
- 3.3. Changes to the risk register this reporting period are shown in appendix 2. In summary the changes are :-
 - PO1 amended to reflect increased risks relating to WAG funding availability (in light of new financial constraints faced by WAG).
 - New risk (F14) relating to WAG approval of Final Business Case (FBC) to enable contract award (linked to new financial constraints faced by WAG)
 - New risk (F15) re availability of funding by Partner Authorities to support enhanced "front end" recycling services.
 - W1 amended to reflect risk of partner authorities not increasing front end recycling levels.
- 3.4. The risk register is shown in the accompanying appendix 3.



NWRWTP

North Wales Residual Waste Treatment Project

3.5. The risk register will continue to be reviewed by the Project Director and reported to the Joint Committee at future meetings.

4. RECOMMENDATIONS

4.1. That the Joint Committee note the updated risk register for the project.

5. FINANCIAL IMPLICATIONS

5.1. Not applicable

6. ANTI-POVERTY IMPACT

6.1. None

7. ENVIRONMENTAL IMPACT

7.1. Not applicable

8. EQUALITIES IMPACT

8.1. Not applicable

9. PERSONNEL IMPLICATIONS

9.1. Not applicable

10. CONSULTATION REQUIRED

10.1. Not applicable

11. CONSULTATION UNDERTAKEN

11.1. Not applicable

LOCAL GOVERNMENT ACCESS TO INFORMATION ACT 1985

Background Documents:

None

Contact Officer: Stephen Penny NWRWTP



NWRWTP

North Wales Residual Waste Treatment Project

Appendix 1 Top (Red) risks and issues

ID	Risk / Issue (i.e.: Threat to the Project)	Consequence	Current Assessment			How the risk w	
			Impact	L'hood	Overall	Already in Place	Who is Managing
Policy & regulatory Risk – Change in WAG objectives / regulations							
PO1	WAG changes financial support available for residual waste treatment projects due to WAG affordability / budgetary constraints in the current economic climate	Residual waste treatment projects become less affordable for partnership and each partner authority	5	4	20	Project Team to monitor WAG positions in terms of budget availability and lobby at ministerial level if there are indications that proposed funding is to be reduced	PD
PO2	WAG Environmental policy and objectives change	Project is now inappropriate	4	5	20	Keep in close contact with WAG to ensure potential policy changes that may impact on the project are identified early.	PD
PO4	Change in legislation or guidance either at European, National or Regional/Local level	Could require revisit of preferred solution, possible termination of project, excessive LAS compliance costs	3	5	15	Keep in close contact with WAG to ensure potential policy changes that may impact on the project are identified early.	PD
Communication & stakeholders – failure to proactively engage with key stake holders leading to delays and lack of public support for the propose							
CO4	Pressure from lobby groups/public against the preferred solution and location.	Alternative solution/site has to be sought, increased project development costs, delays to project delivery programme, excessive LAS costs, impact on Partner Councils reputation	4	5	20		
Procurement Strategy and Process							
P13	Technological solutions offered are not commissionable within LAS infraction timescales	LA' s face infraction fines for additional landfill above allowance	4	4	16	OBC modelling has shown that each partner authority can meet LAS allowances if they increase "front end" recycling and composting" and the project is delivered to timetable. Any underperformance in this "front end" recycling and composting are outside the scope of this project and any subsequent LAS liabilities will lie with the individual partner authorities. See also risk W1	Partner authorities
Planning and permitting -ability to secure successful planning and permitting outcome for solution							
PS5	Suitable sites are not in council ownership to support development of the solution	Project delayed whilst suitable sites are secured	5	3	15	Project team are identifying sites that could be suitable for location of both the waste transfer stations and residual waste treatment facility(s)	PD
Wastes							
W3	Composition of waste is different from that anticipated (poor data, policy changes, changes in collection practices)	Performance is below required level, excessive LAS compliance costs	3	5	15		
Performance							
PE1	Market/outlet is not available for outputs from the facility(s)	Increased project operational costs, increase in demand for landfill void	4	4	16		



Appendix 2 Changes this reporting period

PO1	WAG changes financial support available for residual waste treatment projects due to WAG affordability / budgetary constraints in the current economic climate	Residual waste treatment projects become less affordable for partnership and each partner authority	5	4	20	Project Team to monitor WAG positions in terms of budget availability and lobby at ministerial level if there are indications that proposed funding is to be reduced	PD		5	3	15	
F14	WAG seeks unachievable levels of VFM at Final Business case review stage and approval process due to financial constraints	WAG funding support is less than anticipated making the project is unaffordable	5	3	15	OBC funding award letter defines the conditions for payment of funding- this is consistent with the Partnership's expectations.	PD	Lobby WAG and liaise with WLGA on this issue.	PD	5	2	10
F15	Partner authorities fail to make financial plans to support additional recycling and composting services to meet "front end" increased recycling levels that are required	Failure to meet WAG "front end" recycling and composting targets with increased residual waste arisings as a result.	4	4	16	Partner authorities to develop long term funding plans to support enhanced front end recycling and composting services.	Partner Authorities		4	3	12	
W1	A Council fail to reach recycling targets by not delivering enhanced "front end" recycling and composting services	Potential excessive project costs due to excess residual waste, threat to affordability, possible excessive LAS penalties if facilities under-sized and fines applied by WAG to authorities for underperforming against recycling targets.	3	4	12	Initial discussions already held on key payment mechanism and inter authority principles to describe risk and how costs will be assigned amongst the partner authorities for under/ over provision of waste tonnages as a result of under/over recycling/ composting performance against agreed waste profiles.	PD	Ongoing engagement and communication with partner authorities to understand proposed waste recycling and composting services so that tonnage profiles can be finalised prior to ISDS stage of the procurement process. Partner authorities to develop plans for meeting enhanced recycling and composting services.	PD	3	3	9



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

RHIF EITEM AGENDA: 7

ADRODDIAD I'R: CYD-BWYLLGOR PTGGGC

DYDDIAD: 14 IONAWR 2011

ADRODDIAD GAN: RHEOLWR PROSIECT

PWNC: DIWEDDARIAD CYFATHREBU

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. I ddiweddarau Aelodau'r Cydbwyllgor ar faterion cyfathrebu sy'n ymwneud â Phrosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (NWRWTP).

2. CEFNDIR

- 2.1. Mae'r Cydbwyllgor hwn wedi gwneud cais am ddiweddariadau rheolaidd ar faterion cyfathrebu sy'n ymwneud â NWRWTP. Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar gynnydd hyd yma.

3. DIWEDDARIAD CYFATHREBIADAU

- 3.1. Datganiad i'r Wasg Cyn-gymhwys: Yn dilyn y broses werthuso cyn-gymhwys ffurfiol rhyddhawyd datganiad i hysbysu'r wasg ar gynnydd hyd yn hyn. Enwodd y datganiad wyth o ymgeiswyr llwyddiannus sydd wedi mynd drwodd i'r cam cyn-gymhwys a hefyd roedd yn amlygu beth fyddai'r cam nesaf yn y broses. Mae hwn ynghlwm yn Atodiad 1.
- 3.2. Ymateb i Ddatganiad Cyfeillion y Ddaear: Deallir bod Cyfeillion y Ddaear (Cyd) wedi cylchu datganiad i aelodau etholedig o bob un o'r awdurdodau lleol partner. Roedd eu datganiad yn adlewyrchu gwrthwynebiad Cyd i unrhyw fath o losgi, ond hefyd roedd yno nifer o gamgymeriadau a allai gamarwain. Mae'r Tîm Prosiect wedi datblygu ymateb manwl i ddatganiad Cyd sydd yn dilyn cytundeb y Bwrdd Prosiect wedi ei gylchu i'r holl aelodau etholedig o'r pum awdurdod lleol partner. Mae hwn ynghlwm yn Atodiad 2.
- 3.3. Newyddlen Aelodau: Mae'r Tîm Prosiect wedi cylchu newyddlen i aelodau etholedig yn rhoi diweddariad iddynt ar gynnydd y caffael. Mae hwn ynghlwm yn Atodiad 3.
- 3.4. Datblygu Gwefan: Yn ddiweddar mae Steffan Owen (Rheolwr Prosiect) a Karen Powell (Cynorthwydd Personol) o'r Tîm Prosiect wedi derbyn



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

hyfforddiant ar sut i ddiweddarau a datblygu gwefan benodol NWRWTP. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer llwytho i fyny effeithiol ac amserol o ddata i wefan y prosiect.

- 3.5. Cynllun Cyfathrebu i'r Dyfodol: Yn dilyn terfynu contract yr ymgynghorydd cyfathrebu, yn awr mae angen datblygu cynllun i ddelio â materion cyfathrebu i'r dyfodol. Awgrymir bod y Tîm Prosiect yn datblygu ffordd ymlaen gyda'r swyddogion cyfathrebu o'r pum awdurdod lleol partner. Mae cyfarfod o'r Grŵp Swyddogion Cyfathrebu wedi ei drefnu erbyn 21 Ionawr 2011. Yn y cyfamser, efallai bod angen i'r Tîm Prosiect alw cefnogaeth gyfathrebu arbenigol i mewn ar sail 'pryd a phan fo angen'.

4. ARGYMHELLION

- 4.1. Nodi cynnwys yr adroddiad diweddarau hwn.
- 4.2. Darparu adroddiadau diweddarau pellach i'r Cydbwyllgor ar faterion cyfathrebu fel maent yn codi.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Amherthnasol.

6. EFFAITH GWRTH-DLODI

- 6.1. Amherthnasol.

7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

- 7.1. Amherthnasol.

8. EFFAITH CYFARALEDD

- 8.1. Amherthnasol .

9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

- 9.1. Amherthnasol.

10. YMGYNGHORIAD SYDD EI ANGEN

- 10.1. Amherthnasol.

11. YMGYNGHORIAD A WNAETHPWYD

- 11.1. Amherthnasol.



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

DEDDF LLYWODRAETH LEOL MYNEDIAD AT WYBODAETH 1985

Dogfennau cefndir:

Dim

Swyddog Cyswilt Steffan Owen NWRWTP



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Atodiad 1 – Datganiad i'r wasg



13 Rhagfyr 2010

Mae'r Broses gaffael yn symud i'r cam nesaf ar gyfer Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Ar ôl y diddordeb mawr a ddangoswyd ymhlith ymgeiswyr arfaethedig mae Prosiect Trin Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC) ar fin cymryd yr ail gam yn y broses gaffael, sef mynd ag wyth o gwmnïau trwodd o'r cam Cyn Cymhwysio anodd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wedi rhoddi targedau anodd i Gymru yng nghyswllt ailgylchu a chompostio; ynddynt nodir y bydd raid ailgylchu neu gompostio saith deg y cant o wastraff domestig Gogledd Cymru erbyn 2024/25. Mae pob aelod o'r Bartneriaeth (Cynghor Sir y Fflint, Cynghor Sir Ynys Môn, Cynghor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cynghor Sir Ddinbych a Chynghor Gwynedd) wedi ymrwymo i ddal ymlaen gyda'r gwaith o gynyddu lefelau ailgylchu a chompostio; mae hyn, fodd bynnag, yn dal i'n gadael gyda tri deg y cant y bydd raid ei drin mewn ffordd wahanol i dirlenwi. Daeth y Bartneriaeth ynghyd a chychwyn proses gaffael ar y cyd gyda'r nod o daro ar ateb gwahanol yng nghyswllt trin y gwastraff gweddilliol hwn.

Yr wyth ymgeisydd a wahoddwyd i ail gam y broses gaffael yw:

- Biffa Waste Services / E.ON,
- Complete Circle (consortium o John Laing Investments Ltd, Shanks Waste Management Ltd, Keppel Seghers a Grays Waste Management Ltd),
- Covanta Energy Ltd,
- Sita UK Ltd,



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

- Veolia ES Aurora Ltd,
- Viridor Waste Management Ltd,
- Waste Recycling Group / Balfour Beatty Capital a
- Wheelabrator Technologies.

Yn awr bydd gan yr ymgeiswyr hyd at Chwefror 2011 i gyflwyno manylion am eu hatebion bras yng nghyswllt trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Mae'r broses gaffael yn dechnolegol niwtral, sef bod yr ymgeiswyr yn rhydd i gyflwyno unrhyw ateb a allai drin y gwastraff hwnnw sydd ddim yn cael ei ailgylchu.

Dywedodd y Prif Weithred Arweiniol i'r prosiect ac i Gyngor Sir y Fflint, Colin Everett: "Mae'r Barntneriaeth wedi ei galonogi'n fawr gan ddiddordeb y diwydiant yn y prosiect hyd yma. Wrth inni symud ymlaen gydag wyth ymgeisydd, sicrha hynny bod gennym ddewis da a bydd modd prynu'r dechnoleg orau sydd ar gael i drin gwastraff ac i gwrdd ag anghenion Gogledd Cymru a sicrhau, yr un pryd, y gwerth gorau am arian i drethdalwyr Gogledd Cymru"

Dywedodd Stephen Penny, Cyfarwyddwr Prosiect PTGGGC: "Rydym yn falch iawn o'r diddordeb mawr yn y prosiect ac yn edrych ymlaen at glywed beth fydd atebion posib yr ymgeiswyr. Rhaid inni ostwng ein dibyniaeth ar dirlenwi a hwnnw'r nod dan y prosiect."

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect ewch i wefan www.nwrwtp.org

Diwedd

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Steffan Owen, Cyngor Sir y Fflint. Ffôn: 01352 704915
E-bost: gwybodaeth@ptgggc.org neu info@nwrwtp.org

Nodiadau o Olygyddion

Y rhain yw aelodau Prosiect Triniaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru:

- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint

Sefydlwyd y Bartneriaeth i gydreoli y gwastraff gweddilliol (wedi'i adael ar ôl) a gynhyrchir yn ardaloedd y pum awdurdod lleol. Gwastraff gweddilliol yw'r deunydd sydd ar ôl yn sgil ailgylchu a chompostio popeth bosib. Hyd yma ar arfer oedd mynd â'r gwastraff dros ben i safle tirlenwi. Mae Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru wedi cychwyn ar broses gaffael gyda golwg ar ddyfarnu contract i reoli'r gwastraff gweddilliol trwy ddull heblaw ei gludo i safle tirlenwi.



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Atodiad 2 – Ymateb nodyn briffio cyfeillion y ddaear



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL



Rhagfyr 2010

Ymateb i Briffio Cyfeillion y Ddaear ar NWRWTP

Mae Cyfeillion y Ddaear (CyDd) wedi cyhoeddi nodyn briffio ar Brosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Yn eu nodyn mae'n ymddangos nad yw cryn dipyn o'r wybodaeth yn gwbl gywir, neu'n wybodaeth y mae'r Bartneriaeth eisoes wedi gweithredu arni.

Yn yr ymateb hwn ceisir rhoddi sylw i'r meysydd hynny a gamddehonglir, neu rai y mae'r Bartneriaeth eisoes wedi eu hystyried ac wedi cymryd camau yn eu cylch (mae'r penawdau yn dilyn rhai nodyn briffio CyDd).

Beth yw y PTGGGC?

Mae'r PTGGGC (y Bartneriaeth) yn bartneriaeth o bum awdurdod lleol Gogledd Cymru (Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn). Nod y Partneriaeth yw i brynu gwasanaeth gan y Diwydiant Gwastraff fydd yn cynnig ateb pwrpasol i drin y gwastraff hwnnw a adawyd ar ôl yn sgil ailgylchu cymaint ohono ag oedd yn bosib. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wedi annog y Bartneriaeth i gysylltu gydag awdurdodau cyfagos eraill yng Nghymru rhag ofn bod modd sefydlu partneriaeth weithio ehangach. Ar hyn o bryd nid yw'n ymddangos bod modd tynnu rhagor o awdurdodau lleol Cymru i mewn i'r Prosiect Triniaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru.

Nid yw nodyn briffio CyDd yn cydnabod bod y Bartneriaeth wedi dweud yn glir yn ei Hachos Busnes Amlinellol (ABA)¹ y bydd y broses gaffael yn dechnolegol niwtral. Fodd bynnag â nodyn CyDd ymlaen i ddatgan gwrthwynebiad i'r Ynni o Wastraff (EfW) fel technoleg trin gwastraff. Ymddengys eu bod yn rhagdybio bod canlyniad y broses gaffael eisoes wedi'i benderfynu ymlaen llaw. Nid felly y mae pethau - dyluniwyd y broses gaffael i annog cynigwyr i ymateb gyda llu o atebion posib heb ragfarn o blaid nac yn erbyn unrhyw dechnoleg.

Mae'r Bartneriaeth wedi paratoi dull gwerthuso a ddefnyddir i benderfynu, yn y broses gaffael, ar yr ateb sy'n cwrdd orau ag anghenion y Bartneriaeth. Dylid nodi yma bod y

¹ Fu i'r Achos Business Amlinellol (ABA) archwilio nifer o opsiynau technolegol er mwyn arddangos dichonoldrwydd y prosiect. Wrth gwyflwyno'r ABA i LICC roedd yn angenrheidiol i ddewis ateb fyddai'n bosib datblygu er mwyn arddangos i LICC fod oedd ateb potensial ar gael i'r Bartneriaeth fyddai'n medru cwrdd ac amcanion triniaeth gwastraff ar sail cadarn amgylcheddol ac ariannol. Nid yw'r cynnwys o EfW yn yr ABA yn cau allan mewn unrhyw ffordd atebion eraill ddod ymlaen o'r farchnad sydd y medru cwrdd ac amcanion y prosiect.



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Bartneriaeth wedi cynnal sawl sesiwn gyda rhanddeiliaid allanol i ddatblygu'r dull hwn o werthuso ac roedd CyDd yn rhan o'r broses.

CyDd yn honni nad yw patrymau'n sgil-gynhyrchion gwastraff yn cyfiawnhau "Llosgydd EfW"

Mae nodyn briffio CyDd yn cynnwys y ffigyrau diweddaraf i sgil-gynhyrchion gwastraff yng Nghymru lle ceir tystiolaeth o ostyngiad yn y Gwastraff. Wedyn ânt ymlaen i ddweud bod hyn yn golygu bod gwastraff sgil-gynhyrchion yn is na'r ffigwr yn ABA y Bartneriaeth ('roedd ABA y Bartneriaeth yn seiliedig ar ddata allbynnau llif gwastraff ddiwedd 2008/9). Wrth nodi hyn mae CyDd yn gywir. Fodd bynnag, tra mae'n gywir bod y ffigyrau gwastraff mwyaf ddiweddar yn dangos gostyngiad, mae'r tystiolaeth statudol yn bell o fod yn ddigon cynhwysfawr i haeru fod hyn yn dueddiad hir dymor.

Dylid nodi bod y Bartneriaeth yn cadw golwg wastadol ar sgil-gynhyrchion gwastraff ac ar ragamcanion gwastraff ac wedyn yn rhoddi gwybod am unrhyw newidiadau yn y cyfryw ragamcanion i'r cynigwyr a rhoi'r cyfle iddynt lunio atebion yn seiliedig ar y ffigyrau diweddaraf. Felly nid yw'r Bartneriaeth mewn unrhyw ffordd yn gaeth i'r amcangyfrifon sgil-gynhyrchion gwastraff yn yr ABA ac a ddefnyddiwyd ar y pryd. Bydd y Bartneriaeth yn parhau i adolygu'r rhagamcanion hyn trwy gydol y broses gaffael ac yn cynnwys y ffigyrau diweddaraf fel bod yr ateb a brynir ar ddiwedd y dydd yn cydymffurfio gyda'r data a'r rhagamcanion gwastraff diweddaraf y pryd hwnnw.

Nodir yma fod nodyn briffio CyDd yn cydnabod y bydd gwastraff gweddilliol yn dal i fod ar ôl i'w drin, er gwaethaf bodloni targedau LICC². Mae'r Bartneriaeth yn croesawu'r gydnabyddiaeth gan fod hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol y mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn ei hwynebu a chred y Bartneriaeth bod hyn yn dangos bod angen Prosiect Triniaeth Gwastraff Gweddilliol yn lle dibynnu, fel a wnawn, ar safleoedd tirlenwi. Mae'n gywir dweud bod y ffigyrau diweddaraf i sgil-gynhyrchion gwastraff yn dangos gostyngiad sylweddol ond nid oes digon o dystiolaeth ystadegol ar gael i haeru bod hwn yn batrwm tymor hir at i lawr.

Mae nodyn CyDd yn cyfeirio at Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol LICC "*Tuag at Ddyfodol Diwastraff*" lle mae ffigwr gostwng gwastraff -1.2% i'r gwastraff cyhoeddus y mae'r Awdurdodau lleol yn ei gasglu, (nid -1.4% fel y dywed CyDd). Mae'r Bartneriaeth Wastraff yn ymwybodol o'r ffigwr hwn ond rhaid i CyDd sylweddoli nad yw LICC wedi mabwysiadu hyn yn ffurfiol ac mae'n destun arolwg yn dilyn ei phroses ymgynghori'n ddiweddar. Bydd gan fersiwn derfynol y Cynllun Sector Cyhoeddus (MSP) a gyhoeddir gan LICC statws ffurfiol ac wrth gwrs bydd y Bartneriaeth yn cydymffurfio gydag unrhyw dargedau yn fersiwn derfynol yr MSP.

Mae'r Bartneriaeth wedi mynegi pryderon yn ffurfiol (fel ymateb ymgynghori ffurfiol i LICC) yng nghyswllt cyflawni'r targed hwn i ostwng Gwastraff gan nad yw LICC yn ei fersiwn ddrafft o'r MSP beth yw'r camau disgwyliedig i bwrpas cyflawni'r targed.

Fel pwynt manwl defnyddiodd yr ABA ragamcan twf 0.5%, nid 0.6% fel yr honnwyd gan CyDd. Mewn gwirionedd roedd graff twf yr ABA yn adlewyrchu twf yn y cynnydd yn nifer yr aelwydydd a thwf yn y boblogaeth dros gyfnod y prosiect ac mae'n cyfateb i dwf oddeutu 0% i bob aelwyd bob blwyddyn.

² Nodyn Biffio CyDd rhan gyda teitl "Defnyddio Dulliau Eraill i Ymdrin â Gwastraff Gweddilliol"



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

CyDd yn honni y bydd “Llosgydd EfW yn rhoddi Nenfwd Artiffisial ar Ailgylchu”

Unwaith eto mae nodyn CyDd yn rhagdybio'n llwyr mai'r dechnoleg EfW yw'r un a ddewisir. Fel y dywedwyd o'r blaen mae'r broses Gaffael yn dechnolegol niwtral ac ni wyddwn, ar hyn o bryd, pa dechnoleg a brynir ar ddiwedd y dydd.

Os ydyw'r Bartneriaeth yn optio am ateb Triniaeth Gwastraff Gweddilliol fel EfW, mae CyDd yn haeru y bydd hyn rhwystro unrhyw gynnydd pellach mewn ailgylchu a chompostio. Ond nid yw hyn yn wir. Mae'r ABA yn cydnabod yn glir y bydd gofyn i'r Awdurdodau Partneriaethol gwrdd â Thargedau Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol LICC ac o'r herwydd y bydd raid cynyddu'n sylweddol y gweithgaredd ailgylchu a chompostio “Pen Blaen” ymhlith yr holl Awdurdodau Partneriaethol. Mae'r ABA a'r broses gaffael ddilynol yn seiliedig ar ragdybiaeth glir y bydd yr Awdurdodau Partneriaethol yn cyflawni'r targedau gwastraff a chompostio hyn (70% erbyn 2024/25). Wrth ddatblygu'r Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol, mae LICC gyda syniad o beth yw lefelau heriol ond rhai cyraeddadwy serch hynny yng nghyswllt ailgylchu a chompostio ac felly bydd raid i'r Awdurdodau Partneriaethol gydymffurfio gyda'r cyfryw lefelau. Felly nid yw CyDd yn gywir pan haerant y bydd y PTGGGC yn cyfyngu ar ailgylchu.

Cefnogir hun gan y Mesur Gwastraff sydd wedi ei fabwysiadu'n ddiweddar gan LICC a ddisgwyllir iddo gael Cydsyniad Brenhinol y mis yma. Mae'r Mesur a gynnigir yn gosod targedau statudol ar gyfer y canran o wastraff i'w ailgylchu, pataroi i'w aildefnyddio a chompostio. Mae'r targedau yma yn gorffen gyda tharged o 70 y cant erbyn 2024-25. Mae'r Mesur cynnigol hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymraeg i sefydlu dirywion ariannoll ellir godi ar awdurdodau lleol nad ydynt yn cwrdd a'r targedau sefydlwyd yn y mesur.

Yn benodol yn eu nodyn mae CyDd yn haeru y bydd poblogaeth ardal y Bartneriaeth erbyn 2026 yn 570,000, ac felly'n dal y bydd sgil-gynhyrchion gwastraff yn sylweddol is na rhagamcanion ABA gwreiddiol y Bartneriaeth. Fodd bynnag mae Ystadegau Cymru LICC yn rhoddi rhagamcan o 594,100³ sy'n golygu bod ffigurau CyDd yn anghywir.

Daw CyDd i gasgliad rhesymegol y bydd raid, i bwrpas cyflawni addewidion tunelli, llosgi deunydd a fuasai, fel arall, yn cael ei ailgylchu. Unwaith eto mae CyDd yn gwneud datganiad ysgubol gan dybio na fydd y Bartneriaeth yn rhoi unrhyw sylw i'r rhagamcanion gwastraff diweddaraf nac yn caniatáu ystywythder yn yr atebion a gaiff ar ddiwedd y dydd. Nid yw hyn yn wir; bydd y Bartneriaeth yn sicrhau y bydd y rhagamcanion cryfaf a diweddaraf yn cael eu defnyddio i wastraff trwy gydol cyfnod y caffael ac yn sicrhau hefyd y bydd ystywythder priodol yn cael ei ymgorffori yn y cytundebau masnachol gyda'r cwmnïau i ddiogelu'r Bartneriaeth i'r graddau y bo'n ymarferol bosib rhag newidiadau mawrion yn y rhagamcanion i'r gwastraff tymor hir a'r sgil-gynhyrchion gwastraff.

CyDd yn haeru y gallai “EfW fod yn gostus i'r awdurdodau lleol”

Yn seiliedig ar ragamcanion gwastraff y Bartneriaeth fel y cânt eu hamlinellu yn yr ABA mae CyDd yn haeru y bydd “y tunelli sydd ar gael i'w llosgi yn sylweddol is na'r ffigur a warantwyd” ac y bydd “Awdurdodau lleol yn gorfod talu cosb uchel i'r cwmni llosgi”.

Yn y rhan flaenorol mae'r Bartneriaeth wedi disgrifio sut y bydd yn sicrhau y caiff y sgil-gynhyrchion gwastraff a'r rhagamcanion diweddaraf eu defnyddio i bwrpas y broses gaffael ac y bydd hefyd yn cyflwyno ystywythder i'r atebion a brynir.

³ LICC / Ystadegau i Gymru “Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru (sail-2006) – Adroddiad Crynhoi, Tabl 1.



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Nid yw CyDd yn fodlon cydnabod bod yr ABA a ddatblygwyd i'r Bartneriaeth yn dangos yn glir iawn bod achos ariannol cryf o blaid sicrhau ateb Triniaeth Gwastraff Gweddilliol i ardal y Bartneriaeth. Mae hyn i'w briodoli i'r gostyngiad sylweddol yn y defnyddiau a gludir i safleoedd tirlenwi a chostau cysylltiedig cynyddol i'r Bartneriaeth dros gyfnod y prosiect. **I grynhoi - yn absenoldeb unrhyw ateb mae risg ariannol sylweddol i'r Bartneriaeth ac felly i'r holl Awdurdodau Partneriaethol.**

Fe ddylai CyDd gydnabod bod Gwastraff Gweddilliol, ar hyn o bryd, yn ael ei gludo i safleoedd tirlenwi ac y bydd costau'r gwasanaeth yn tyfu'n fawr yn y dyfodol. Felly mae angen cymharu costau unrhyw ateb yn erbyn costau cynyddol y drefn bresennol o gladdu Gwastraff Gweddilliol.

CyDd yn haeru nad yw'r EfW o gymorth i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Gwna CyDd haerriad cyffredinol bod ailgylchu, at ei gilydd, yn cyfrannu llai i gynhesu byd-eang na thirlenwi neu losgi. Mae LICC a'r Bartneriaeth yn cydnabod hyn ac o'r herwydd wedi ymrwmo i dargedau uchel a heriol iawn o ran ailgylchu a chompostio (70% ailgylchu / compostio erbyn 2024/25). Fodd bynnag mae LICC yn cydnabod bod cyfyngiadau ymarferol i ailgylchu a chompostio ac yn cydnabod y bydd peth Gwastraff Gweddilliol sy'n cynnwys amryfal ddeunyddiau na fydd modd, yn ymarferol, eu gwro i farchnadoedd ailgylchu a chompostio. At hyn mae gan LICC darged penodol 30% i Driniaeth Gwastraff Gweddilliol o 30% gan gydnabod bod swyddogaeth i Driniaeth Gwastraff Gweddilliol mewn unrhyw ateb cytbwys.

Mae Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol LICC yn nodi'n glir beth yw'r targedau a ddatblygwyd i leihau gwastraff, aildefnyddio, ailgylchu, compostio a thriniaeth gwastraff gweddilliol. Y casgliad y daw LICC iddo yw mai hwn yw'r cytbwysedd gorau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae LICC wedi cynnal asesiad oes gyfan – mae'n dangos yn glir bod buddiannau amgylcheddol Triniaeth Gwastraff Gweddilliol megis EfW yn rhagori ar yr arfer bresennol o gludo i safleoedd tirlenwi.

Felly teimla'r Bartneriaeth nad yw CyDd wedi cydnabod mai'r gymhariaeth briodol o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yw honno rhwng unrhyw ateb Triniaeth Gwastraff Gweddilliol a'r arfer bresennol o dirlenwi (mae tirlenwi yn sylweddol waeth o ran effaith newid yn yr hinsawdd nag unrhyw ateb arall Triniaeth Gwastraff Gweddilliol y gellid ei ddarparu i Ogledd Cymru). Unwaith eto mae LICC wedi cydnabod nad yw parhau i ddefnyddio safleoedd tirlenwi yn opsiwn amgylcheddol dymunol a gosododd darged i'r uchafswm gwastraff y bydd modd ei dirlenwi - sef dim mwy na 5% erbyn 2024/25.

Hefyd dywed CyDd bod technolegau eraill heblaw EfW o bosib yn well i bwrpas newid yn yr hinsawdd. Dan y broses gaffael ystyrir beth yw perfformiad amgylcheddol pob ateb a gyflwynir gan y cynigwyr posib. Unwaith eto mae'r cynigwyr yn rhydd i gyflwyno unrhyw dechnoleg sydd, yn eu tyb nhw, yn bodloni gofynion y Bartneriaeth (yn seiliedig ar Dargedau'r Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol LICC).

CyDd yn haeru bod EfW yn rhyddhau gollyngiadau gwenwynig.

Mae CyDd yn haeru bod EfW yn rhyddhau cemegau gwenwynig ac yn cynhyrchu llwch gwenwynig. Mae'r EfW yn un o'r prosesau sy'n cael ei rheoleiddio'n llym iawn yn y GE. Buasai'n rhaid i EfW newydd fodloni safonau Cyfarwydddeb Gollyngiadau Llosgi Gwastraff y GE, a phenderfynwyd ar y safonau i bwrpas diogelu'r amgylchedd ac i osgoi unrhyw



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

effaith ddrwg ar iechyd pobl. Yn y DU, mae gollyngiadau EfW yn wynebu dadansoddiad manwl o ran eu heffaith ar iechyd, ac yn ddiweddar daeth yr Asiantaeth Diogelu Iechyd (y corff annibynnol a chenedlaethol sy'n gyfrifol am ddiogelu iechyd pobl) i'r casgliad "*While it is not possible to rule out adverse health effects from modern, well regulated municipal Waste incinerators with complete certainty, any potential damage to the health of those living close-by is likely to be very small, if detectable.*" [Gw. Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd "The Impact on Health of Emissions to Air from Municipal Waste Incinerators", Medi, 2009].

Roedd yr astudiaeth hon yn adolygu nifer o astudiaethau a gomisiynwyd i sefydlo a oes unrhyw gyswllt rhwng EfW a'r effaith o bosib ar gymunedau lleol. Nid yw casgliadau'r Asiantaeth Diogelu Iechyd yn cyd-fynd â haeriadau CyDd yn eu nodyn briffio.

Fe roddir '*Tuag at Ddyfodol Diwastraff*' fel strategaeth rheoli gwastraff cenedlaethol, drwy asesiad effaith iechyd gyda'r casgliad bod "yn y pendraw, mae risg yn fater perthynol, a nid oes unrhyw sefyllfa ddirisg i reoli gwastraff, er mae'r

Dywed CyDd yn eu nodyn bod hanner y lludw gwaelodol (is-gynnyrch y broses losgi) yn mynd i safleoedd tirlenwi, a bod y gwastraff dan sylw'n beryglus. Mae'r profiad a gafwyd gydag EfW modern yn y DU yn awgrymu bod modd ailgylchu hyd at 99% o'r deunydd hwn fel agreg amgen, ac nad yw lludw gwaelodol sy'n cael ei dirlenwi'n beryglus. Mae'n rhaid defnyddio safleoedd trwyddedig priodol i gael gwared o waddodion (cyfran fechan) a ddaw o systemau Rheoli Llygredd Aer (Air Pollution Control - APC).

Sonia CyDd beth "y dylai Cynghorau ei wneud yn lle llosgi"

Mae CyDd yn rhestru nifer o weithgareddau sydd, yn eu tyb nhw, yn osgoi neu'n gostwng y defnydd y mae'n rhaid ei wneud o unrhyw Driniaeth Gwastraff Gweddilliol (unwaith eto tybia CyDd mai EFW fydd y dechnoleg a ddefnyddir). Fel y dywedwyd uchod bydd y Bartneriaeth yn cydymffurfio gyda'r Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol LICC.

Fel y dywedwyd uchod mae dyletswydd ar yr Awdurdodau Partneriaethol i gynyddu'n sylweddol y lefelau lleihau gwastraff, aildefnyddio, ailgylchu a chompostio. Bydd yr ateb triniaeth gwastraff gweddilliol yn cael ei lunio a bydd o faint priodol i ddelio'n unig gyda'r gwastraff gweddilliol sy'n bod, unwaith y bydd yr awdurdodau partneriaethol wedi cyflawni'r dyletswyddau hynny.

Felly mae gwendid wrth wraidd y gosodiad gan CyDd – sef y bydd ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol i leihau gwastraff, aildefnyddio, ailgylchu a chompostio yn golygu na fydd angen cyfleusterau Triniaeth Gwastraff Gweddilliol.

Ond dylid nodi bod CyDd yn y rhan "Defnyddio Dulliau Eraill i Ddelio gyda Gwastraff Gweddilliol", yn cyfeirio at Driniaeth Fiolegol Fecanyddol (Mechanical Biological Treatment - MBT) fel ateb posib i Driniaeth Gwastraff Gweddilliol. Yn amlwg, felly, maent yn cydnabod bod angen ateb Triniaeth Gwastraff Gweddilliol.

Y cywair yn nogfen CyDd yw bod disgwyl i Awdurdodau Partneriaethol wneud mwy o waith lleihau gwastraff, aildefnyddio, ailgylchu a chompostio. Mae'r Bartneriaeth yn cytuno ac mae'r pum Awdurdod Partneriaethol un ai'n gwneud rhywfaint neu'r cyfan o'r gwaith a awgryma CyDd, neu'n y broses o gyflwyno gweithgareddau eu fel arall wrthi'n eu hystyried. Yn y pendraw, mae'r awdurdodau partner wedi ymrwymo i uchafu ei gynlluniau ailgylchu, compostio a lleihau gwastraff. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gymryd agwedd ymarferol i wneud y gorau o wastraff ni elli ei ailgylchu sydd yn weddill.



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Sylw penodol CyDd ar awgrymiadau i ddefnyddio dulliau eraill o ddelio gyda Gwastraff Gweddilliol.

Mae CyDd yn cyflwyno gwrthwynebiad i EfW yn eu nodyn briffio. Mae LICC yn cefnogi EfW fel eu technoleg ddewisol yng nghyswllt Triniaeth Gwastraff Gweddilliol, ond fel y dywedwyd o'r blaen mae proses gaffael y Bartneriaeth yn dechnolegol niwtral a 'run technoleg neilltuol yn cael ei chefnogi na'i gwrthod.

Cyfeiria CyDd at MBT, nweiddio, pyrolysis neu dirlenwi fel atebion posib i'r Driniaeth Gwastraff Gweddilliol. Dyma sylwadau'r Bartneriaeth ar hyn:

Yn nodyn briffio CyDd dywedir y **gallai'r** allbynnau o atebion MBT "fod yn ddigon glân i ddychwelyd y deunydd i'r tir" – petai ateb MBT yn cael ei gynnig gan fidiwr yna edrychid ar y mater fel rhan o broses gwerthuso unrhyw dendr. Fel sylw cyffredinol, mae technolegau MBT hefyd yn tueddu i fod yn ddefnyddwyr net o ynni sylweddol ac felly mae angen asesu beth yw eu troedbrint carbon.

Mae CyDd yn cyfeirio'n benodol at dechnolegau Nweiddio a Phyrolysis. Nid yw'r rhain wedi eu profi'n fasnachol nac yn dechnolegol i'r un graddau â'r technolegau EfW. Mae'r safleoedd prin sydd eisoes ar agor yn cynhyrchu o gwmpas 400 – 500 kWh o drydan am bob tunnell o wastraff cyhoeddus gweddilliol; efallai bod hyn llai buddiol yn gyffredinol na EfW. Yn y ddau achos bydd effaith/budd amgylcheddol llawn unrhyw ateb yn rhan o'r gwerthusiad caffael.



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Crynodeb

- Mae sawl camgymeriad ffeithiol yn nodyn briffio CyDd.
- Nid yw nodyn briffio CyDd yn cydnabod swyddogaeth Targedau Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol LICC o ran cyd-destun a'r cyfyngiadau y mae'r Bartneriaeth yn gorfod gweithio danynt. Mae hynny'n cynnwys targedau lleihau gwastraff, ailddefnyddio, ailgylchu, compostio, Triniaeth Gwastraff Gweddilliol a chyfyngiadau ar dirlenwi – targedau y mae'n rhaid i'r Awdurdodau Partneriaethol eu cyrraedd ac mae'n ymrwymedig iddynt. Hefyd, dan strategaeth LICC rhaid rhoi blaenoriaeth i drin Gwastraff Gweddilliol yn hytrach na'i dirlenwi.
- Felly mae NWRWTP yn chwilio am ateb sydd ddim o angenrheidrwydd "yn lle" lleihau gwastraff, ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio, ond yn hytrach yn eu hategu gyda'r nod o gael yr ateb gorau i'r Awdurdodau Partneriaethol. Fydd unrhyw gyfleuster newydd yn ran o sustem reoli gwastraff llawer mwy eang fydd wedi ei gynllunio i reoli gwastraff yn y ffordd mwy gynaliadwy.
- Roedd yn rhaid i'r ABA ddarparu ateb yr oedd modd gweithredu arno ac un y gellid cymharu a gwerthuso atebion eraill yn ei erbyn; fodd bynnag mae'r broses gaffael yn dechnolegol niwtral – ni phleidir ac ni wrthodir yr un dechnoleg.
- Ymhob contract bydd cryn ystywythder ar gyfer newidiadau yn y gwastraff, ac ni fydd dyletswydd ar y Bartneriaeth i ddod o hyd i ddeunydd ar draul ailgylchu. Bydd y Bartneriaeth yn sicrhau y bydd yn defnyddio'r rhagamcanion gorau a diweddaraf trwy gydol y broses gaffael
- Dangosodd yr ABA yn glir y bydd caffael ateb Triniaeth Gwastraff Gweddilliol yn creu cyfle i'r Awdurdodau Partneriaethol osgoi costau sylweddol sydd ynghlwm wrth barhau i dirlenwi. Camarweiniol felly yw i CyDd haeru y gallai ateb Triniaeth Gwastraff Gweddilliol megis EfW "fod yn gostus iawn i'r Awdurdodau lleol".
- Bydd caffael ateb Triniaeth Gwastraff Gweddilliol yn dod â manteision sylweddol o ran newid yn yr hinsawdd – o bwysu a mesur yn erbyn parhau i dirlenwi.
- Mae'r pum Awdurdod Partneriaethol un ai'n gwneud rhywfaint neu'r cyfan o'r gwaith a awgryma CyDd (e.e. casgliadau ailgylchu a.y.b.), neu'n y broses o weithredu neu'n ystyried gweithredu.
- Dywed yr Asiantaeth Diogelu Iechyd nad oes effeithiau iechyd dirnadwy i'w priodoli i EfW modern. Felly mae datganiad CyDd yn codi ofnau'n ddi-sail.
- Dywed nodyn briffio CyDd bod rhai technolegau triniaeth gwastraff gweddilliol, megis MBT, yn "cynnig buddiannau amgylcheddol, yn creu llawer mwy o swyddi o safon ac yn rhatach". Nid oes sail i'r haeriadau hyn. Trwy ei phroses gaffael sicrhau'r Bartneriaeth y bydd y cyfan o'r technolegau triniaeth a gynigir gan y cynigwyr yn cael eu gwerthuso o ran perfformiad amgylcheddol, fforddiadwyedd a ffactorau eraill megis creu swyddi a.y.b. Yn y diwedd bydd y Bartneriaeth yn sicrhau'r ateb sy'n cwrdd ag anghenion yr Awdurdodau Partneriaethol orau.



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Atodiad 3 – Newyddlen Aelodau



Rhifyn 5

Ionawr 2011

PROSIECT TRIN GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

Cynnydd Gyda'r Proses Caffael

Ers cyhoeddi rhifyn diwethaf y cylchlythyr hwn ym mis Mai 2010, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wedi cadarnhau eu cymeradwyaeth o arian ychwanegol i'r partneriaeth o £142.7 miliwn. Fydd hwn mewn ffurf £5.72 miliwn am bob blwyddyn o cyfnod y cytundeb (tua 25 mlynedd)

Mae hyn wedi galluogi'r partneriaeth i symyd ymlaen gyda'r proses caffael. Ar ôl y diddordeb mawr a ddangoswyd ymhlith ymgeiswyr arfaethedig mae Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC) wedi cyrraedd yr ail gam yn y broses gaffael, sef mynd ag wyth o gwmnïau trwodd o'r cam Cyn Cymhwyso anodd. Yr wyth ymgeisydd a wahoddwyd i ail gam y broses gaffael yw:

- Biffa Waste Services / E.ON,
- Complete Circle (consortium o John Laing Investments Ltd, Shanks Waste Management Ltd, Keppel Seghers a Grays Waste Management Ltd),
- Covanta Energy Ltd,
- Sita UK Ltd,
- Veolia ES Aurora Ltd,
- Viridor Waste Management Ltd,
- Waste Recycling Group / Balfour Beatty Capital a
- Wheelabrator Technologies.

Yn awr bydd gan yr ymgeiswyr hyd at Chwefror 2011 i gyflwyno manylion am eu hatebion bras yng nghyswllt trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Mae'r broses gaffael yn dechnolegol niwtral, sef bod yr ymgeiswyr yn rhydd i gyflwyno unrhyw ateb a allai drin y gwastraff hwnnw sydd ddim yn cael ei ailgylchu, heb ragfarn o blaid nac yn erbyn unrhyw dechnoleg trin gwastraff.

Mae'r Barntneriaeth wedi ei galonogi'n fawr gan ddiddordeb y diwydiant yn y prosiect hyd yma. Wrth symud ymlaen gydag wyth ymgeisydd, sicrhau hynny bod dewis da a bydd modd prynu'r dechnoleg orau sydd ar gael i drin gwastraff ac i gwrdd ag anghenion Gogledd Cymru a sicrhau, yr un pryd, y gwerth gorau am arian i drethdalwyr Gogledd Cymru.

Cyfathrebu – Gwefan Newydd

Gellir ymweld a gwefan newydd y PTGGGC erbyn hyn (www.ptgggc.org neu www.nwrwtp.org), fydd yn declyn allweddol i hysbysu'r cyhoedd ynglyn a'r PTGGGC. Fe fydd rhan yma wedi ei ddiogelu i Aelodau yn unig ar y safle. I gael mynediad i'r rhan yma, fe fydd angen i chi deipio eich enw a'ch ward ar y sgrin. Yn dilyn hyn, fe fydd cyfrinair yn cael ei greu i chi. Fe fydd y rhan Aelodau yn cynnwys gwybodaeth am gyfarfodydd yn y dyfodol (amser a lleoliad) a chofnodion o gyfarfodydd Cyd Bwyllgor sydd eisioes wedi ei gynnal, yn ogystal a gwybodaeth arall megis adroddiadau a gwybodaeth cefndirol. Fe fydd hyn yn sicrhau y bydd Aelodau gyda mynediad i wybodaeth mwyaf diweddar ynglyn a'r prosiect.



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Mae'r partneriaeth yn ymwybodol bod cyfathrebu ac ymgynghori gyda budd-ddeiliaid, gan gynnwys Aelodau, yn hanfodol a bwriedir rhoi'r gwybodaeth mwyaf ddiweddar i'r budd-ddeiliaid yna trwy gydol y proses trwy amrediad o ddulliau gan gynnwys y wefan nodir uchod, y cylchlythyr yma a dulliau eraill.

Camau Nesaf

Fel a nodir uchod, mae gan yr ymgwiswyr tan mis Chwefror i gyflwyno manylion am eu hatebion bras. Fe fydd y partneriaeth yna yn asesu'r bidiau er mwyn i'r Cyd-Bwyllgor ddewis yr ymgeiswyr i wahodd i gyflwyno eu hatebion manwl. Disgwylir i hyn i fod yn ystod y gwanwyn, a fe fyddwn yn cyhoeddi'r newyddlen yma yn chwarterol (yn uniongyrchol a trwy'r gwefan) i'ch ddiweddarau.

Os oes ganddoch unrhyw gwestiynau, peidiwch a phetruso i gysylltu â'r Tim Prosiect ar 01352 704915 neu gwybodaeth@ptgggqc.org

Diolch yn fawr

Tim Prosiect
Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

EITEM AGENDA RHIF: 8

<u>ADRODDIAD I:</u>	<u>CYD-BWYLLGOR PTGGGC</u>
<u>DYDDIAD :</u>	<u>14 IONAWR 2011</u>
<u>ADRODDIAD GAN:</u>	<u>CYFARWYDDWR PROSIECT</u>
<u>PWNC :</u>	<u>PROTOCOL CYFRINACHEDD A RHYDDID GWYBODAETH</u>

1.00 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.01 I ddiweddarau a cheisio caniatâd gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ar y cynnydd mewn datblygu Protocol Cyfrinachedd a Rhyddid Gwybodaeth (FOI).

2.00 CEFNDIR

2.01 Mae'r Bartneriaeth yn bwriadu cofleidio'n llawn y cyfleoedd mae Deialog Gystadleuol yn ei roi i bob parti yn ystod ei Broses Gaffael ac mae'n bwriadu ymgysylltu â thrafodaethau agored ac adeiladol gyda'r holl Ymgeiswyr ynghylch datblygiad eu cynigion.

2,02 Fodd bynnag, mae'r tîm prosiect yn cydnabod er mwyn i hyn ddigwydd yn effeithiol, mae angen protocol clir a manwl i ymdrin â sut y bydd y Bartneriaeth ei hun yn delio â'r trafodaethau hyn a'r wybodaeth ddilynol, yn ogystal â'r dull i'w fabwysiadu o fewn y Deialog ei hun a gwybodaeth sydd angen ei rhannu gydag amrediad o randdeiliaid ar gamau penodol.

3.00 YSTYRIAETHAU

3.01 Mae nifer o reolaethau cyfyngu wedi eu gosod ar y Bartneriaeth ac awdurdodau Caffael yng nghyswllt cynnal cyfrinachedd cynigion ymgeisydd yn ystod y broses gaffael. Yn benodol, rhaid i'r awdurdodau Caffael lynu wrth Reoliad 18(21) (c) o'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006, sydd yn **atal yr Awdurdod rhag datgelu i Ymgeiswyr eraill y "datrysiadau a gynigir neu unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gyfathrebir gan gyfranogwr gan gytundeb y cyfranogwr hwnnw."** Rhaid i'r term "datgelu i Ymgeiswyr eraill" trwy estyniad rhesymegol hefyd gynnwys dod i mewn i'r parh cyhoeddus. Mae Atodiad 2 yn bapur gan ymgynghorwyr cyfreithiol allanol, y prosiect Pinsent Masons sy'n gosod allan y cyfyngiadau cyfreithiol a osodir ar y Bartneriaeth yng nghyswllt rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol ymgeisydd.



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

- 3.02 Pwrpas y Protocol yw rhoi canllaw ar faterion Cyfrinachedd a Rhyddid Gwybodaeth i'r holl randdeiliaid o fewn y Broses Gaffael ac yn enwedig y broses Deialog Gystadleuol. Mae'r ddogfen yn amcanu at roi arwydd clir ar bob cam ynglŷn â pha randdeiliaid ddylai gael gwybodaeth ar y cam hwnnw. Gweler y protocol yn atodiad 1. Mae'r Protocol ar ffurf drafft ac mae wedi bod yn destun i ymgynghoriad cychwynnol gyda swyddogion cyfreithiol o'r holl Awdurdodau Partner. Bydd y Protocol yn cael ei gwblhau yn dilyn ymgynghoriad manylach gyda swyddogion FOI awdurdodau partner.

Dull arfaethedig NWRWTP o ymdrin â chyfrinachedd a FOI

- 3.03 Bydd gan bob cam o'r Broses Gaffael ei faterion ei hun yn ymwneud â Chyfrinachedd a Rhyddid Gwybodaeth. Mae'n ofynnol ar i'r Bartneriaeth, yn ôl telerau'r broses Deialog Gystadleuol, gynnal cyfrinachedd gydag Ymgeiswyr ynglŷn â'u cynigion drwy gydol y Ddeialog Gystadleuol.
- 3.04 Fodd bynnag bydd y Bartneriaeth yn dymuno cynghori aelodau Bwrdd Prosiect NWRWTP, Cyd Bwyllgor NWRWTP a hefyd aelodau o bob awdurdod cyfranogol ar gynnydd yn ystod yr amser hwn, a chyhoeddi cynnydd y Ddeialog Gystadleuol.
- 3.05 Drwy'r Bwrdd Prosiect a'r Tîm Prosiect, bydd gan y Bartneriaeth gydweithwyr o'r Awdurdodau Partner Unigol, Ymgynghorwyr ac Aelodau'r Cyd Bwyllgor NWRWTP yn rhan o wahanol gamau'r Broses Gaffael. Bydd hefyd angen cyfarfodydd adrodd yn ôl i Awdurdodau Partner unigol ar benderfyniadau ac adroddiadau ar gynnydd, i'r cyfryngau ble bo'n briodol ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Yn ychwanegol, bydd y Bartneriaeth yn cychwyn cam ymgynghoriad cyhoeddus yng nghyswllt safleoedd a cheisiadau cynllunio (gweler yr adroddiad ar wahân ar yr agenda hwn yn gysylltiedig â drafft strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu'r Bartneriaeth.

Prif Elfennau'r Protocol Cyfrinachedd a Rhyddid Gwybodaeth

- 3.06 Noda'r Protocol mai dim ond i bobl awdurdodedig y gellir cyfathrebu gwybodaeth gyfrinachol. Y rhain fydd y rhai y rhoddwyd y wybodaeth iddynt ac unrhyw rai eraill y mae darparwr y wybodaeth gyfrinachol wedi eu hawdurdodi i dderbyn y wybodaeth gyfrinachol.
- 3.07 Noda'r Protocol na ddylai gwybodaeth gyfrinachol gael ei datgelu o dan unrhyw amgylchiadau i berson anawdurdodedig, yn cynnwys ymgynghorwyr, uwch swyddogion neu aelodau'r Cyd Bwyllgor NWRWTP neu swyddogion neu aelodau'r Awdurdodau Partner Unigol.
- 3.08 Os yw rhywun yn haeru bod ganddynt hawl i weld gwybodaeth gyfrinachol, dylid cyfeirio yn y lle cyntaf at y Protocol ac os na cheir eglurhad yna dylid cyfeirio'r mater i Brif Swyddog Cyfreithiol yr



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Awdurdod Arweiniol a fydd, (yn dilyn ymgynghoriad gyda Chyfarwyddwr Prosiect NWRWTP) â'r cyfrifoldeb terfynol o fewn y Bartneriaeth ar gyfer pennu unrhyw faterion ynghylch gwybodaeth gyfrinachol.

- 3.09 Yng nghyswllt ceisiadau FOI neu EIR, mae dull swyddogol o ymateb i'r ceisiadau hyn o fewn canllaw FOI yr Awdurdod arweiniol (Cyngor Sir y Fflint). Mae'r broses ar gyfer delio â cheisiadau FOI o fewn y Bartneriaeth wedi ei hamlinellu yn y Protocol.
- 3.10 Dim ond yn electronig y ceir mynediad at beth gwybodaeth (cynigion manwl yr ymgeisydd a chyfathrebiadau'r ymgeisydd gyda'r tîm caffael) a bydd diogelwch ar y cyfrinair. Mewn achosion o'r fath, cyfyngir ar y mynediad i bersonél awdurdodedig.

Crynodeb o'r dull bwriadedig o ledaenu gwybodaeth

- 3.11 Bydd gan y Bwrdd Prosiect fynediad llawn at yr holl wybodaeth yn gysylltiedig â'r broses gaffael a chynigion ymgeiswyr. Gwneir cyflwyniadau ac adroddiadau manwl i'r Bwrdd Prosiect yng nghyswllt cynigion ymgeiswyr ac yng nghyswllt unrhyw dad-ddetholiad o ymgeiswyr yn ystod y broses gaffael.
- 3.12 Bydd gan y timau Negodi ac arfarnu (fel y disgrifir hwy yn y Papur Trafodaeth Adnoddau Prosiect, fel yr ystyriwyd gan y Bwrdd Prosiect hwn yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf 2010) fynediad llawn at yr holl wybodaeth yn gysylltiedig â'r broses gaffael a chynigion ymgeiswyr.
- 3.13 Darperir crynodebau o'r prif gynigion/ datrysiadau i'r Cyd Bwyllgor a gynigir gan yr Ymgeiswyr mewn sesiwn gaeedig/breifaf yn ogystal ag argymhellion ar gyfer dad-ddethol Ymgeiswyr (ac yn y pen draw gymeradwyaeth o'r ymgeisydd a ffefrir/ dyfarniad contract) ar wahanol gamau'r broses gaffael.

Darparu gwybodaeth i Awdurdodau Partner Unigol

- 3.14 Mae'r Protocol yn gosod allan y dull arfaethedig o ddarparu gwybodaeth i Awdurdodau Partner Unigol. Mae'r Protocol yn rhagweld y darperir adroddiadau diweddarau gan y Tîm Prosiect (mewn ymgynghoriad gyda chynrychiolwyr technegol, ariannol, cyfreithiol o bob Awdurdod Partner unigol fel bo angen) yn crynhoi agweddau allweddol y datrysiadau a gynigwyd gan yr Ymgeiswyr ar bob cam o'r broses gaffael i'w defnyddio mewn sesiwn breifat yn unig.

Gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus

- 3.15 Bydd y Bartneriaeth yn medru gwneud gwybodaeth ar gael yn gyhoeddus ble na fydd hyn yn tanseilio sefyllfa fasnachol y



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Bartneriaeth neu ddatgelu datrysiad Ymgeiswyr yn ystod y broses gaffael heb eu caniatâd. Enghraifft o'r fath wybodaeth y gellid ei gwneud ar gael yn gyhoeddus fyddai yng nghyswllt unrhyw safleoedd newydd a sicrheir gan y Bartneriaeth i'w gwneud ar gael i'r Ymgeiswyr, neu er enghraifft dull y Bartneriaeth o ymdrin â materion penodol fel rheilffyrdd ayb.

- 3.16 Ar gamau allweddol (e.e. rhestr hir PQQ, ISOS a dad-ddethol ISDS) bydd yn bosib gwneud yn gyhoeddus (ac felly i awdurdodau unigol ystyried mewn sesiwn gyhoeddus) ddeilliannau'r prosesau rhestr hir a dad-ddethol. Er enghraifft byddai'r cwmnïau a osodwyd ar y rhestr hir o ganlyniad i'r cam PQQ yn cael ei wneud yn gyhoeddus, fel y byddai'n dilyn hynny enwau'r cwmnïau hynny sy'n cael eu gwahodd i gyflwyno datrysiadau manwl, eu gwahodd i gyflwyno tendrau terfynol ac ymgeisydd a ffefrir/ dyfarniad contract.
- 3.15 Yng nghamau olaf y broses gaffael (ar ôl camau ISDS/ CFT) efallai y bydd yn bosib dod â pheth gwybodaeth i'r parth cyhoeddus ynglŷn â defnydd potensial safleoedd cyfeirio neu safleoedd eraill fel rhan o gynigion Ymgeiswyr ond dim ond gyda chytundeb yr Ymgeiswyr. Petai Ymgeiswyr yn cyflwyno cais cwmpasu i awdurdod cynllunio lleol yn gysylltiedig â'u datrysiad byddai hyn mewn gwirionedd yn gwneud eu datrysiad yn gyhoeddus. Ar y pwynt hwn, byddai'r Bartneriaeth yn rhydd i gyfeirio at y wybodaeth hon sydd ar gael yn gyhoeddus. Ar gam ymgeisydd a ffefrir, dylai fod yn bosib dod â gwybodaeth yng nghyswllt y datrysiad arfaethedig i'r parth cyhoeddus.

CYTUNDEB CYFRINACHEDD

- 3.15 Oherwydd natur sensitif a maint proses gaffael y PTGGGC, cytunwyd y Bwrdd Prosiect y dylir rhai o swyddogion gyda rhan yn y prosiect ac Aelodau'r Cyd-Bwyllgor (ac Aelodau nad yw'n aelodau o'r Cyd Bwyllgor sydd yn mynychu cyfarfodydd o'r Cyd Bwyllgor) arwyddo Cytundeb Cyfrinachedd mewn unrhyw gyfarfod ble fydd materion sensitif masnachol yn cael ei drafod. Mae draft gweithredol o gytundeb wedi ei ysgrifennu, a bydd y Swyddogion Cyfreithiol yn cwrdd hwyrach ym Mis Ionawr 2011 i'w drafod. Arodir y draft gweithredol yma yn atodiad 1.
- 3.16 Prif bwyntiau y cytundeb yw:-The main points of the agreement are as follows:-
- Cyfarwyddo'r derbynydd i beidio a rhyddhau unrhyw wybodaeth cyfrinachol i unrhyw bartiau eraill, ac i beidio a defnyddio'r gwybodaeth i unrhyw ddefnydd heb cytundeb y datgelwr. It instructs the Recipient to return copies of Confidential Information to the Discloser.
 - Cyfeirio Aelodau i'w Cod Ymddygiad.
 - Gofyn i'r dderbynydd i ardystio:-



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

- Nad ydynt gyde diddordeb unriongyrchol neu aniongyrchol yn y broses gaffael yma neu'r cytundeb.
- Nad ydynt wedi cael eu gynfasu mewn cysylltiad a'r paratoad, cyflwyniad a asesiad yn y broses gaffael yma neu'r cytundeb.
- Nad ydynt wedi ei gyfaddawdu trwy derbyn anrhegion neu lletygarwch gan berson sydd yn darparu nwyddau neu gwasanaethau o gweithredoedd i awdurdodau'r Partneriaeth neu unrhyw barti gyda cysylltiad a'r broses gaffael yma neu'r cytundeb

SUSTEM GWEINYDDOL

3.17 Er mwyn sicrhau fordd effeithiol ac effeithlon o ddsbarthu dogfenau cyfrinachol i Aelodau (Aelodau Cyd Bwyllgor ac Aelodau nad ydyn ar y Cyd Bwyllgor), cynnigir bod papurau cyfrinachol yn cael ei ddsbarthu yn y dulliau isod:-

Papurau Cyd Bwyllgor

- Ni fydd papurau Cyd Bwyllgor yn cael ei ddsbarthu try ebost fel ar y hyn o bryd. Fe fydd y Tim Prosiect yn argraffu a ddsbarthu copiau wedi ei rhifo i aelodau'r Cyd Bwyllgor.
- Fe fydd Aelodau'r Cyd Bwyllgor yn cadw'r copiau mewn lle diogel ac yn cytuno i beidio gwneud copiau ohonynt.
- Fe fydd Aelodau'r Cyd Bwyllgor yn rhoi'r copiau yma yn ol i'r Tim Prosiect ar ddiwedd Cyfarfodydd.

Individual Partner Authority Member meetings / briefings

- Fe fydd Adranau Gwasanaethau Aelodau yn gyfrifol am argraffu nifer fechan o gopiau (llai na 4 (pedwar)) o gopiau), a cadw'r copiau yma mewn lleoliad diogel ofewn y swyddfeydd y Cyngor am gyfnod o [X] diwrnod cyn unrhyw gyfarfod er mwyn i'r Aelodau weld y papurau cyn y cyfarfod. Ni chaniateir i'r papurau adael yr ystafell honno na i wneud copiau ohonynt. Fe fydd Adranau Gwasanaethau Aelodau yn gyfrifol am argraffu a ddsbarthu copiau wedi'i rhifo yn y cyfarfod / sesiwn briffio. Fe fydd y copiau yma i'w ddychwelyd yn ôl i'r Fe fydd Adranau Gwasanaethau Aelodau, a byddynt yn gyfrifol am eu llarpio a'r copiau a gedwir yn y lleoliad diogel. Dylir yr Adranau Gwasanaethau Aelodau gadarnhau pryd mae'r llarpio wedi digwydd.

Swyddogion

- Fydd y Tim Prosiect yn cytuno i ddarparu copiau papur o unrhyw ddogfenau sensitif masnachol i swyddogion perthnasol am gyfnod. Fe fydd y swyddogion yn cytuno i gadw'r dogfenau mewn lleoliad diogel ac i beidio gwneud copiau ohonynt. Unwaith mae'r swyddogion wedi gorffen gyda nhw, fydd y copiau yn cael ei ddychwelyd yn ol i'r Tim Prosiect i'w llarpio.



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

ARGYMHELLION

- 4.01 Bod y Cyd Bwyllgor yn cymeradwyo'r Protocol Cyfrinachedd A Rhyddid Gwybodaeth yn amodol ar newidiadau bychan gan y Swyddogion Cyfreithiol.
- 4.02 Bod y Cyd Bwyllgor yn cymeradwyo'r Cytundeb Cyfrinachedd yn amodol ar newidiadau bychan gan y Swyddogion Cyfreithiol.
- 4.03 Bod y Cyd Bwyllgor yn cymeradwyo'r sistem gweinyddol yn amodol ar newidiadau bychan gan y Swyddogion Cyfreithiol.

5.00 GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.01 Dim

6.00 EFFAITH GWRTH DLODI

6.01 Dim

7.00 EFFAITH AMGYLCHEDDOL

7.01. Dim

8.00 EFFAITH CYDRADDOLDEB

8.01 Dim

9.00 GOBLYGIADAU PERSONÉL

9.01 Dim

10.00 ANGEN YMGYNGHORIAD

10.01 Dim

11.00 YMGYNGHORIAD WEDI'I GYNNAL

11.01 Mae swyddogion cyfreithiol o bob un o'r 5 Awdurdod Partner wedi bod yn rhan o adolygiad a datblygiad y Protocol Cyfrinachedd a Rhyddid Gwybodaeth Drafft.

12.00 ATODIADAU

- Atodiad 1 Protocol Cyfrinachedd a Rhyddid Gwybodaeth Drafft
- Atodiad 2 Cytundeb Cyfrinachedd Ddrafft



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 **BACKGROUND DOCUMENTS**

Papur Trafod Adnoddau Prosiect fel y'i ystyriwyd gan y Bwrdd Prosiect hwn yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf 2010.

Swyddog Cyswllt: Stephen Penny
Ffôn: (01352) 704914
E-bost : Stephen.penny@flintshire.gov.uk



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Atodiad 1 – Draft Freedom of Information Protocol



[DRAFT]

Confidentiality and Freedom of Information Protocol - Procurement Process

North Wales Residual Waste Treatment Partnership

N.B.

Denbighshire has requested that the Protocol be sent to the ICO for approval. This is not common practise and it not something that falls within the ICO's remit.

Conway and Flintshire have requested that a meeting be held with the relevant officer to discuss the Protocol.



1.1 CONTENTS

1.	DISCLAIMER	10
2.	THE CURRENT SITUATION	10
3.	PURPOSE OF THE PROTOCOL	10
4.	STAKEHOLDERS MAP	11
5.	OVERVIEW	13
6.	THE LEAD INFORMATION AUTHORITY AND PROPER OFFICERS .	13
7.	HANDLING OF INFORMATION REQUESTS	14
8.	GUIDELINES FOR CONFIDENTIALITY AND FOI BETWEEN AUTHORITIES AND BIDDERS	16
9.	FOI CONTEXT	16
10.	THE PARTNERSHIP'S APPROACH TO CONFIDENTIALITY AND FOI	17
11.	RECORDS MANAGEMENT AND INFORMATION STANDARDS	19
12.	REPORTING & FOI STAKEHOLDER SUMMARY	20



2. DISCLAIMER

- 2.1 This document does not constitute professional legal advice on confidentiality or freedom of information matters ("**Information**") but has been formulated based on current good practice, current UK policy and guidelines issued in relation to Information when using a competitive dialogue process.
- 2.2 This information and communication protocol (the "**Protocol**") is approved by the North Wales Residual Waste Treatment Partnership (the "**Partnership**") joint committee (the "**Joint Committee**"), who are the decision making body for the Partnership procurement process (the "**Procurement Process**"). [Specific contacts for the Procurement Process can be found in paragraph [REDACTED] of this document.]

3. THE CURRENT SITUATION

- 3.1 The Partnership is currently undertaking a major procurement process for a new residual waste treatment facility for the North Wales region (the "**Project**") acting through its project team and project office ("**Project Office**") [DN: Need to define Project Office more clearly, i.e. who is a part of it, Steffan Owen etc?]. This will be a public private partnership ("**PPP**") contract, possibly funded by limited recourse project finance, primarily for the development of residual waste facilities. This contract will be procured through a competitive dialogue process ("**Competitive Dialogue**") pursuant to the Public Contracts Regulations 2006 (SI 2006/5).
- 3.2 The Project, with an estimated overall value of £600 to £800 million, will deliver the residual waste treatment management needs for the Partnership for approximately the next twenty-five (25) years.

4. PURPOSE OF THE PROTOCOL

- 4.1 The purpose of this Protocol is to provide guidance on Information to all stakeholders (for the list of various stakeholders please see paragraph 5 below) within the Procurement Process and in particular during Competitive Dialogue. As stated in the disclaimer at the beginning of the document (paragraph 2 above) this Protocol does not replace professional legal advice but aims to give a clear indication at each stage as to which stakeholder should have information access.
- 4.2 The Partnership intends to fully embrace the opportunities that Competitive Dialogue provides to all parties during its Procurement Process and intends to engage in open and constructive discussions with all parties bidding for the Project (the "**Bidders**") regarding the development of their proposals.
- 4.3 However, the Partnership recognises that to enable this to effectively take place, a clear and precise Protocol needs to be established. This is to cover:-



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

- how the Partnership will itself deal with these discussions and resulting information;
- the approach to be adopted within Competitive Dialogue itself; and
- the information that will need to be shared with a variety of stakeholders at certain stages.

4.4 Further to the above, the Partnership also recognise that:-

- the public and press are likely to have an interest in the Project due to its potential environmental, economic and social impact on the region. The Partnership therefore feels that it is important to have this Protocol in place so that requests for information about the Project ("**Information Requests**") can be dealt with in a proficient and consistent manner;
- the five participating authorities involved with the Project (Conwy County Borough Council, Denbighshire County Council, Flintshire County Council, Gwynedd Council and Isle of Anglesey County Council) (the "**Authorities**") in this Procurement Process already have obligations under the Environmental Information Regulations 2004 ("**EIR**") and the Freedom of Information Act 2000 ("**FOIA**") and this Protocol is designed to work alongside those statutory requirements; and
- [there is a Confidentiality Agreement dated [REDACTED] which [REDACTED] have entered into. However, the parties wish to enter into further agreements in relation to the handling of Information Requests, namely this Protocol.]


5. **STAKEHOLDERS' MAP**

5.1 There are numerous stakeholders within the Procurement Process, both internal and external, that will need to be aware of the Protocol and will need to be advised of its guidelines.



PTGGGC

Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru





6. OVERVIEW

- 6.1 The Authorities, which individually responsible for how they release Information, should co-operate and consult with each other prior to Information being released.

7. THE LEAD INFORMATION AUTHORITY AND PROPER OFFICERS

[NB: We will need to name who is to be the main contact for Information Requests at the Lead Authority and the other Authorities]

- 7.1 To help make sure Information Requests are dealt with properly, two (2) key roles will have to be decided between the Authorities - the lead authority (the “**Lead Authority**”) and an officer who will deal with FOIA and EIR Information Requests (the “**Proper Officer**”), whose roles are described below.

- Lead Authority

One (1) Authority should take on the role as a Lead Authority. The Joint Committee has appointed Flintshire County Council as the Lead Authority for the purposes of the Project. An outline of their role is listed below:

- they will manage requests for disclosure addressed to the Partnership
- they will liaise with, and inform the Project Office of, such an Information Request;
- they will maintain a log of all the Information Requests (including the specific information these Information Requests relate to) made under FOIA, EIR or any associated codes of practice; and
- they will have final responsibility within the Partnership for determining any issues regarding confidential Information.

- Proper Officer

Each Authority should nominate an individual who will be their Proper Officer. An outline of their role is listed below:

- ensure compliance with FOIA, EIR or any associated codes of practice in that individual Authority in relation to the Project;



- make sure the guidance in this Protocol is followed, particularly the procedures at paragraph 8 below (Handling of Information Requests);
